# 5: Llangwnnadl - Plas yn Rhiw

## Pellter / Distance: 28.3km/17.6m

Wedi mynd heibio i Borth Colmon byddwch yn gadael yr arfordir am ychydig cyn ailgyfarfod y môr wrth Borthor. Wrth fynd o amgylch trwyn y penrhyn byddwch yn llygad y gwynt a dengys y creigiau serth a chaled mai'r tonnau gwyllt sydd yn llunio'r tirwedd hwn.

Y graig a'r gwynt sy'n gyfrifol hefyd am rosydd bendigedig y bryniau sy'n britho'r trwyn. Ymysg y cyfoeth grug ac eithin, sydd wedi cael ei siapio ar ffurf tonnog gan y gwynt, mae planhigion megis clustog fair a theim gwyllt yn dibynnu ar y pridd sur am gynhaliaeth.

Ar y clogwyni eu hunain mae'r cyfle gorau i fywyd gwyllt difyr a phrin ymgartrefu. Dyma yw cadarnle arwyddlun Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Pen Llŷn sef y fran goesgoch a adnabyddir o'i chri groch a'i phig a choesau coch. Yn y gwanwyn a'r haf, pan fydd y gwynt wedi gostegu rydych yn debyg o glywed galwadau'r llurs, y gwylog a'r amryw wylanod yn paru a magu cywion ar silffoedd y graig.

Mae'r llu cen, gwymonau amrywiol, sbwngau, llygaid maharen a gwichiaid sydd yng nghlwm wrth y creigiau isaf yn byw o fewn cyrraedd y llanw neu'r tonnau.

Maent wedi ymgartrefu hefyd ar arfordir greigiog Ynys Enlli sydd i'w gweld yn glir o'r tir mawr. Ar ôl gadael Uwchmynydd byddwch yn troi tua'r dwyrain, gan ddod yn gyntaf i bentref tawel Aberdaron cyn dringo'n raddol tuag at Y Rhiw.


After following the coast past Porth Colmon you head inland for a while before rejoining the sea at Porthor. As you go around the main headland you will be in the teeth of the wind and the exceptionally steep cliffs of relatively hard rock show that it is rough seas which have sculpted the landscape here.

The rock and wind are also responsible for the wonderful heathlands to be found on the hill summits that dot the headland. Amongst the heather and gorse, whose undulating growth have been shaped by the wind, are plants such as thrift and wild thyme, all dependent on the acidic soil.

The cliffs themselves offer the best homes for interesting and rare wildlife. This is the stronghold of the emblem of the Llŷn Area of Outstanding Natural Beauty, the chough which you can recognise from its harsh call, red legs and beak. In the spring and summer, when the wind subsides you are likely to hear the call of razorbills, guillemots and various gulls as they mate and rear chicks on the rock ledges.

The plentiful lichens, diverse seaweeds, sponges, limpets and barnacles associated with the lower rocks only live within reach of the tide or waves. They have also settled on Bardsey's rocky shores - the island to be seen clearly from the headland.

From Uwchmynydd you turn towards the east, coming firstly to the quiet village of Aberdaron before climbing gently towards Y Rhiw.




Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Ordnance Survey gyda chaniatad yr Ordnance Survey ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.
Hawlfraint y Goron
Mae ailgynhyrchu heb ganiatad yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil.
Cyngor Gwynedd - 100023387 - 2007
This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office.
Crown copyright
Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings.
Cyngor Gwynedd - 100023387 - 2007


Brân goesgoch/The Chough